

GWEITHDREFN

Teitl:	Cynllun Cysgodi	
Maes Arfer / Busnes:	Ymgysylltu a Chyfathrebu	
Yr Adran sy'n Gyfrifol:	Hwb Plismona Tiriogaethol	
Cyhoeddwyd Gyntaf:	02/07/12	
Adolygwyd Ddiwethaf:	18/10/19	
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:	Ebrill 2020	Mae'r ddogfen hon yn gymwys i gyflogeion y:
Rhif y Fersiwn:	06	Prif Gwnstabl

AMCAN GWEITHDREFN HEDDLU DE CYMRU:

Mae'r cynllun hwn yn rhoi cyfle i aelodau o staff yr heddlu ac aelodau o'r gymuned, gan gynnwys cysylltiadau cymunedol allweddol, ymuno â swyddogion yr heddlu neu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ar batrôl er mwyn cael cipolwg ar eu gwaith a helpu i feithrin ymddiriedaeth a hyder yn Heddlu De Cymru. Mae hefyd yn rhoi dealltwriaeth gliriach i aelodau o staff yr heddlu o blismona rheng flaen.

Rhagwelir y gallai'r cynllun hyrwyddo trefniadau ymgysylltu â'r gymuned a chydlynad cymunedol ar sail leol drwy batrolau cyffredinol ond hefyd gan ganolbwyntio o bosibl ar feysydd penodol o fusnes yr heddlu, er enghraifft craffu ar ddigwyddiadau Stopio a Chwilio.

Mae'r Cynllun Cysgodi yn rhoi cyflwyniad i blismona yn Ne Cymru i'r arsylwr, gan ei helpu i ddeall y materion a'r problemau niferus sy'n wynebu'r heddlu bob dydd. Mae hefyd yn rhoi cyfle i swyddogion yr heddlu glywed safbwyntiau posibl arsylwyr am blismona a dylai fod o fudd i'r ddwy ochr.

Yn ogystal â chefnogi'r amcanion uchod, mae hefyd yn hanfodol ystyried materion megis diogelwch pawb dan sylw ac effaith bosibl amlygu aelodau'r cyhoedd i wybodaeth bersonol na fyddent yn cael cyfle i'w gweld fel arall.

CANLLAWIAU:

Gellir rhoi ystyriaeth benodol i gysylltiadau cymunedol o'r grwpiau hynny lle gall ymddiriedaeth a hyder yn yr heddlu fod yn is na mewn mannau eraill. Ni ddylid eithrio pobl sy'n beirniadu'r heddlu rhag cymryd rhan – yn wir, dylid eu hannog.

Mae angen bod yn ofalus wrth ymdrin â chynrychiolwyr etholedig er mwyn sicrhau bod Heddlu De Cymru yn deg ac yn gytbwys a bod hynny'n amlwg.

Bydd cydymffurfio â'r weithdrefn hon yn lleihau'r risg o ddamwain neu anaf er diogelwch pob parti.

Mae'r cynllun yn gymwys i batrolau mewn cerbydau ac ar droed.

Mae'n rhaid i bob un o swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu dan sylw gydymffurfio â'r mesurau diogelu yng ngweithdrefn y Cynllun Cysgodi.

Caiff y broses o gydlynu'r cynllun cyffredinol ei rheoli gan Gydgyssylltydd Teulu Estynedig yr Heddlu, Hwb Plismona Tiriogaethol. Yr Arolygydd Plismona Lleol fydd yn gyfrifol am wneud y trefniadau ymarferol a sicrhau y caiff y gwaith gweinyddol angenrheidiol ei gwblhau ar

gyfer pob Patrôl Cysgodi, gyda chymorth arweinydd penodedig yr Uned Reoli Sylfaenol. Mae map o'r broses wedi'i atodi yn adran Ffurflenni'r polisi.

ASESIAD RISG CYFFREDINOL:

Mae'n rhaid cwblhau asesiad risg cyn cynnal Patrôl Cysgodi. Dylid cynnal asesiadau risg dynamig drwy gydol pob Patrôl Cysgodi. Dylid cadw'r cytundebau wedi'u llofnodi hyn ar ffeil am chwe blynedd. Mae'r templed a ddarperir i'w ddefnyddio ar gyfer pob Patrôl Cysgodi.

Dylid anfon y ffurflen Asesiad Risg wedi'i llofnodi at Gydgysylltydd Teulu Estynedig yr Heddlu o fewn 48 awr i gynnal Patrôl Cysgodi.

Mae gan Heddlu De Cymru ddyletswydd gofal i atal unrhyw niwed i arsylwyr yn y Cynllun Cysgodi ac mae yswirwyr yr Heddlu yn yswirio'r cynllun.

Bydd yr un weithdrefn lechyd a Diogelwch yn gymwys i gysylltiadau cymunedol ac aelodau o staff yr heddlu.

Os caiff Swyddog Tywys y Cynllun Cysgodi ei alw i ddigwyddiad sy'n peri risg o niwed, dylid cyfeirio'r arsylwr i le diogel. Gall hwn fod yn rhywle ble y gall yr arsylwr weld yr hyn sy'n digwydd o hyd. Mewn amgylchiadau mwy eithafol, gellir gofyn i arsylwr ddychwelyd i orsaf yr heddlu. Bydd y Swyddog Tywys yn cynorthwyo os oes modd i helpu'r arsylwr i ddychwelyd i orsaf yr heddlu.

Ni ddylai'r Swyddog Tywys ganiatáu i arsylwyr wirfoddoli na chael eu cyfarwyddo i gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd gweithredol.

Dylai arsylwyr sy'n mynd i ddigwyddiad fel rhan o batrôl symudol aros yn y cerbyd nes y bydd y sefyllfa wedi cael ei hasesu ac yr ystyrir ei bod yn ddiogel i adael y cerbyd.

Dylid gwrthod cymryd rhan mewn gweithrediadau lle mae gwybodaeth leol yn awgrymu y gall arsylwr fod mewn perygl.

Ni ddylid hebrwng carcharor wrth gynnal Patrôl Cysgodi.

GWEITHDREFN:

Gwneud Cais a Dethol

Rhaid gwneud y canlynol:

- Cynnal gwiriadau PNC/Niche – cyfrifoldeb yr Uned Reoli Sylfaenol
- Hysbysu Cydgysylltydd Teulu Estynedig yr Heddlu
- Dylai'r Asesiad Risg/Arolygydd Plismona Lleol ddefnyddio barn broffesiynol cyn derbyn cais yn seiliedig ar ganfyddiadau'r cywiriadau PNC a Niche, a dylid ymchwilio i resymau ymgeiswyr dros wneud cais i fod yn rhan o Batrôl Cysgodi.
- Hysbysu'r Ymgeisydd os caiff ei dderbyn

Rhagwelir y caiff y Cynllun Cysgodi ei hyrwyddo drwy ddefnyddio gwefan allanol Heddlu De Cymru ac yn fewnol ar BOB. Anogir swyddogion a staff yr heddlu i ledaenu'r neges drwy ymgysylltu â'r gymuned. Gall Tîm Cynrychioli'r Gweithlu ystyried hysbysebu'r Cynllun Cysgodi cyn cynnal ymgyrchoedd recriwtio.

Bob tro y gofynnir am Batrôl Cysgodi, dylai'r Arolygydd Plismona Lleol/Uned Reoli Sylfaenol neu arweinydd yr adran anfon y ddogfennaeth at yr ymgeisydd. Mae hyn yn cynnwys ffurflen gais sy'n amlinellu'r amodau cyfranogi ac agweddau diogelwch cymryd rhan.

Ar gyfer Patrôl Cysgodi sylfaenol, dylid cynnal gwiriadau PNC / Niche ar gyfer ymgeiswyr cyn cwblhau Patrôl Cysgodi a gwneud penderfyniad yn lleol ynghylch a ellir derbyn yr unigolyn. Caiff hyn ei hwyluso gan arweinydd yr Uned Reoli Sylfaenol.

Gellir cael gafael ar lythyr Croeso, ynghyd â ffurflen adborth, o fewnwyd BOB. Ar ôl cwblhau ffurflen adborth, dylid anfon copi at y Cydgysylltydd Dinasyddion ym Maes Plismona / i fewnflwch y Cynllun Cysgodi er mwyn sicrhau y cedwir cofnod canolog. Caiff llythyr croeso ei anfon at aelodau o'r cyhoedd yn unig ac nid at staff yr heddlu.

Mae Heddlu De Cymru yn cadw'r hawl i wrthod caniatáu i rywun gymryd rhan mewn Patrôl Cysgodi. Bydd hyn fel arfer yn deillio o wybodaeth sy'n awgrymu y gall fod gan unigolyn resymau eraill dros ymuno â'r cynllun. Er na fydd cofnod troseddol o reidrwydd yn atal rhywun rhag cael ei dderbyn ar y cynllun, dylid craffu'n agos ar natur y cofnod troseddol. Mae'n rhaid i'r ffurflen gais gael ei chwblhau o dan unrhyw amgylchiadau cyn derbyn y cais. Mae ffurflen gais gwyno ar gyfer staff yr heddlu.

Lle y bo'n ymarferol, ystyrir na ddylai arsylwyr fynd ar Batrôl Cysgodi yn yr ardal lle maent yn gweithio neu'n byw. Nod hyn yw lleihau lefelau risg ynghylch rheoli gwybodaeth bersonol.

Nid yw defnyddio'r cynllun at ddibenion y cyfryngau na newyddiadurol yn rhan o gylch gwaith y polisi. Mae'n ofynnol i swyddogion gyfeirio ceisiadau o'r fath at Swyddog y Wasg, a fydd yn eu hystyried ar wahân.

Sifft Patrol Cysgodi

Rhaid gwneud y canlynol:

- Cwblhau asesiad risg
- Swyddog Tywys i ddefnyddio darn clust
- Yr arsylwr i wisgo siaced gwelededd uchel pan fydd ar batrôl
- Ar gyfer pob digwyddiad, ceisir caniatâd i'r arsylwr fod yn bresennol

Yn ystod y Patrôl Cysgodi, dylid tynnu unrhyw gudd-wybodaeth neu wybodaeth sensitif pe bai'n amhriodol i'r arsylwr ei gweld ac ni ddylid datgelu unrhyw wybodaeth bersonol sy'n gysylltiedig ag aelodau o'r cyhoedd oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol.

Dylid bod yn wylidwrus wrth drosglwyddo/derbyn gwybodaeth dros radio. Dylid rhoi gwybod i'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus pan gynhelir Patrôl Cysgodi, er mwyn eu galluogi i ddefnyddio arwydd galwad priodol.

Os bydd y Swyddog Tywys yn ystyried ei bod hi'n briodol i'r arsylwr glywed unrhyw sgwrs rhwng y swyddog a dioddefwr, unigolyn drwgdybiedig neu dyst, bydd yn rhaid i'r swyddog ofyn am ganiatâd yr unigolyn dan sylw i'r arsylwr fod yn bresennol. Gellir tynnu caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg.

Ni chaniateir i arsylwr fynd i ardal y ddalfa.

Cyfarpar

- Cynghorir y Swyddog Tywys i ddefnyddio ei ddarn clust er mwyn lleihau'r risg o ddatgelu data.
- Y Swyddog Tywys sy'n gyfrifol am gyflwr a chynnwys ei gerbyd. Gwneir gwiriadau cyn i'r arsylwr gyrraedd er mwyn sicrhau na cheir mynediad at wybodaeth na deunyddiau yn y cerbyd. Pan fydd yr arsylwr yn y cerbyd ar ei ben ei hun, dylid

diffodd radios. Mae'n rhaid i swyddogion sicrhau nad ydynt yn gadael gwaith papur, dyfeisiau nac eiddo (nac unrhyw beth arall a fyddai'n amhriodol i'r arsylwr ei drafod) yn y cerbyd.

- Dylai'r arsylwr sicrhau ei fod yn gwisgo dillad ac esgidiau addas yn ystod y sifft. Yr unig eitem a ddarperir gan Heddlu De Cymru fydd fest Gwelededd Uchel i'w gwisgo gan arsylwr pan fydd ar batrôl.
- Caniateir i arsylwyr ddod â ffôn symudol rhag ofn y bydd argyfwng, ac fe'u hanogir i wneud hynny. Pan fydd ar batrôl, gwaherddir yr arsylwr rhag ffilmio neu dynnu ffotograffau.
- Dylid ystyried yn ofalus ddefnydd yr arsylwr o gyfryngau cymdeithasol a chytuno arno cyn y Patrôl Cysgodi er mwyn rhoi sylw priodol i faterion iechyd a diogelwch, diogelu data, datgelu a gweinyddu cyfiawnder.

Gwerthuso

Darperir ffurflen adborth er mwyn gwerthuso'r cynllun yn barhaus a'i wella.

Comander yr Uned Reoli Sylfaenol / Pennaeth yr Adran

Comander yr Uned Reoli Sylfaenol / Pennaeth yr Adran fydd yn bennaf cyfrifol am bob Patrôl Cysgodi. Bydd yn rhaid i bob Comander Uned Reoli Sylfaenol / Pennaeth Adran enwi ei arweinydd Uned Reoli Sylfaenol / Adran enwebedig ond fel arfer bydd yr Arolygydd Plismona Lleol perthnasol yn gyfrifol am bob Patrôl Cysgodi yn lleol.

Uned Reoli Sylfaenol/ Adran

Arweinydd yr Uned Reoli Sylfaenol sy'n gyfrifol am gynnal gwiriadau cudd-wybodaeth ac asesiadau risg ar gyfer pob ymgeisydd cyn cymryd rhan mewn Patrôl Cysgodi.

Mae'n rhaid i arweinydd yr Uned Reoli Sylfaenol / Adran sicrhau y cwblheir asesiad risg cyn pob Patrôl Cysgodi. Mae asesiad risg y polisi wedi'i atodi ac argymhellir y dylid ei ddefnyddio, gan roi sylw priodol i amgylchiadau unigol.

Dylid sicrhau bod siaced gwelededd uchel ag "Observer" arni ar gael yn lleol a dylai pob arsylwr ei gwisgo pan gaiff ei orchymyn i wneud hynny. Arweinydd yr Uned Reoli Sylfaenol fydd yn dal i fod yn gyfrifol am gael gafael ar siacedi gwelededd uchel a'u storio.

Arolygydd Plismona Lleol

Bydd yr Arolygydd Plismona Lleol yn clustnodi'r arsylwr i'r Swyddog Tywys priodol, ar ôl gwirio bod y dull adnabod perthnasol wedi cael ei ddangos. Yn achos cydweithwyr o blith staff yr heddlu, bydd yn rhaid dangos dull adnabod Heddlu De Cymru. Mae'n ofynnol i arsylwyr allanol ddangos naill ai pasbort neu o leiaf ddau ddull adnabod os nad oes ganddynt basbort.

Ni ddylai'r Arolygydd Plismona Lleol drefnu Patrôl Cysgodi pan ystyrir bod amodau ffyrdd yn anghyffredin o beryglus i'r cynllun fod yn fuddiol.

Ni chaniateir defnyddio goleuadau glas wrth hebrwng arsylwyr i ddigwyddiadau ac o ganlyniad, dylai arweinwyr Uned Reoli Sylfaenol / Adran gadw rôl y Swyddog Tywys mewn cof wrth glustnodi arsylwr.

Swyddog Tywys

Dylai'r Swyddog Tywys friffio a dadfriffio'r arsylwr a bod yn gyfrifol am orchwyllo'r arsylwr ac am ei ddiogelwch yn ystod ei Patrôl Cysgodi.

Rheoli

Bydd Prif Arolygydd yr Hwb Plismona Tiriogaethol yn gyfrifol am reoli'r cynllun yn gyffredinol. Fodd bynnag, at ddibenion ymarferol ac er mwyn cyflymu'r broses, dylai unrhyw gais i'r heddlu i gymryd rhan yn y cynllun gael ei gyflwyno'n uniongyrchol i'r Uned Reoli Sylfaenol / adran. Nid gwaith pob Comander Uned Reoli Sylfaenol / Pennaeth Adran yw cymeradwyo cais ai peidio. Gall Comander yr Uned Reoli Sylfaenol / Pennaeth yr Adran ddirprwyo awdurdod i lefel reoli briodol.

Bydd y Cydgysylltydd Dinasyddion ym Maes Plismona yn coladu nifer y Patrolau Cysgodi, a fydd yn destun adolygiad ac ni ddylent fod yn faich ar Unedau Rheoli Sylfaenol / Adrannau.

Ymgeiswyr Mewnol

Bydd ymgeiswyr mewnol yn destun yr un broses weinyddol. Fodd bynnag, efallai na fydd gwiriadau PNC yn angenrheidiol os bydd rheolwr llinell yr arsylwr yn cadarnhau bod asesiad fetio yn gyffredol. Penderfynir a fydd ymgeisydd mewnol yn cymryd rhan yn y Patrôl Cysgodi yn ystod oriau gwaith neu yn ystod ei amser ei hun yn ôl disgrisiwn rheolwyr lleol.

Arsylwr

Mae'r arsylwr yn cytuno i gydymffurfio â gweithdrefnau lechyd a Diogelwch Heddlu De Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwisgo dillad ac esgidiau addas pan fydd yn mynd ar Patrôl Cysgodi.

Dylai'r arsylwr fod yn 18 oed neu'n hŷn ac ni ddylai fod ganddo unrhyw gyflwr meddygol nac anaf a fyddai'n peri risg ychwanegol i'r arsylwr neu'r swyddog. Gellir ystyried pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed os oes ganddynt reswm penodol dros wneud cais, e.e. rhywun o grŵp sy'n cael ei dangynrychioli neu aelod o banel pobl ifanc. Bydd angen i unrhyw un o dan 18 oed gael cytundeb rhiant/ceidwad cyn cymryd rhan mewn Patrôl Cysgodi.

Gellir ystyried Gwirfoddolwyr leuenctid yr Heddlu yn unol â pholisïau lleol.

Ni chaniateir i'r arsylwr ffilmio na thynnu ffotograffau pan fydd ar patrôl.

Mae'r arsylwr yn cytuno i gydymffurfio â Chytundeb Cyfrinachedd Heddlu De Cymru a gwybodaeth frifio'r Cynllun Cysgodi.

Ni ddylid caniatáu i unigolyn fynd ar fwy nag un Patrôl Cysgodi oni bai bod amgylchiadau eithriadol neu ei fod yn cyflawni rôl graffu, e.e. craffu ar ddigwyddiadau Stopio a Chwilio ar ran grŵp Cydlyniant Cymunedol Uned Reoli Sylfaenol.

DEDDFWRIAETH A RHEOLEIDDIO:

Yswiriant Atebolrwydd

DEUNYDD CYFEIRIO:

- Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd
- Asesiad Risg lechyd a Diogelwch